# Hybu gofal, dysg a datblygiad plant ag anghenion ychwanegol mewn lleoliadau addysg gynnar

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion wrth hybu gofal, dysg a datblygiad plant ag anghenion ychwanegol mewn lleoliadau addysg gynnar. Mae'n gofyn i chi gynghori a chefnogi eraill mewn lleoliadau lle mae plant ag anghenion ychwanegol yn bresennol. Mae hyn yn cynnwys cysylltu â phlant, eu teuluoedd ac eraill i gasglu gwybodaeth addas am blant unigol sydd ag anghenion ychwanegol. Mae gofyn i chi hefyd adolygu cynlluniau addysg a chasglu a diweddaru gwybodaeth am blant ag anghenion ychwanegol, mewn partneriaeth â'u teuluoedd.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi a chytuno ar eich rolau a’ch cyfrifoldebau o ran hybu gofal, dysg a datblygiad plant ag anghenion ychwanegol mewn lleoliad addysg gynnar
2. arsylwi plant unigol a defnyddio'r wybodaeth i gefnogi eu gofal, eu dysg a'u datblygiad mewn lleoliad addysg gynnar
3. sefydlu perthynas gadarnhaol â phlant a theuluoedd
4. gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd i gasglu gwybodaeth am anghenion a dewisiadau plant
5. gweithio mewn partneriaeth â phlant a theuluoedd i ddatblygu cynlluniau personol i gefnogi gofal, dysg a datblygiad mewn lleoliad addysg gynnar
6. gweithio ag eraill i asesu ac ymateb i anghenion unigol plant
7. modelu technegau a dulliau sy'n canolbwyntio ar y plentyn wrth weithio â phlant ag anghenion ychwanegol mewn lleoliad addysg gynnar
8. cefnogi eraill i weithio mewn partneriaeth â phlant a theuluoedd
9. sicrhau bod yr adnoddau angenrheidiol ar gael i blant, teuluoedd ac eraill
10. nodi a chael gafael ar y cymorth sydd ei angen i gwrdd ag anghenion plant nawr ac yn y dyfodol
11. adolygu cynlluniau personol mewn partneriaeth â phlant, teuluoedd ac eraill i gefnogi gofal, dysg a datblygiad mewn lleoliad addysg gynnar
12. sicrhau bod pawb sy'n ymwneud â hyn yn ymwybodol o unrhyw newidiadau i gynlluniau personol i gefnogi gofal, dysg a datblygiad mewn lleoliad addysg gynnar
13. cefnogi eraill i weithredu cynlluniau personol mewn lleoliad addysg gynnar
14. cyfrannu at gofnodion ac adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer gofal, dysg a datblygiad plant ag anghenion ychwanegol mewn lleoliad addysg gynnar
15. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth hybu gofal, dysg a datblygiad plant ag anghenion ychwanegol mewn lleoliad addysg gynnar

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar ofal, dysg a datblygiad plant
2. y newidiadau y gall plant eu hwynebu ac effaith newid ar eu dysg a'u datblygiad
3. y pwysau emosiynol, cymdeithasol ac amgylcheddol y gallai teuluoedd plant ag anghenion ychwanegol eu hwynebu, ac y gallai fod angen cymorth arnynt â hyn
4. defnydd addas o iaith i gefnogi dealltwriaeth o anghenion plant
5. y fframweithiau asesu ac ymyrryd ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol
6. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth gefnogi plant ag anghenion ychwanegol
7. eich rôl o ran cefnogi'r gwaith o ymgysylltu â phlant a theuluoedd
8. hawliau plant i gael mynediad cyfartal at ofal a chymorth
9. y cymorth lleol a chenedlaethol sydd ar gael i blant ag anghenion ychwanegol, eu teuluoedd ac eraill
10. gwasanaethau eirioli sy'n cefnogi hawliau plant a theuluoedd
11. arbenigedd teuluoedd mewn perthynas ag anghenion plant
12. dylanwad diwylliant, cefndir ac ysbrydolrwydd ar ofal, dysg a datblygiad plant ag anghenion ychwanegol
13. arferion integreiddio a chynhwysiant yn y gweithle a'r ardal leol
14. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma mewn perthynas â gofal, dysg a datblygiad plant ag anghenion ychwanegol mewn lleoliad addysg gynnar
15. patrymau datblygiadol nodweddiadol ac amrywiadau unigol mewn plant
16. sut mae adnabod ymddygiad fel ffordd o gyfathrebu
17. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol mewn lleoliadau addysg gynnar
18. pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd i bersonoli dulliau i gwrdd ag anghenion plant
19. y mathau a'r defnydd o gymhorthion, cyfarpar, dyfeisiau neu adnoddau digidol i gefnogi gofal, dysg a datblygiad plant mewn lleoliad addysg gynnar
20. strategaethau cyfathrebu amgen ac atgyfnerthol i gefnogi plant
21. y cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer hybu gofal, dysg a datblygiad plant ag anghenion ychwanegol mewn lleoliad addysg gynnar
22. theorïau sy'n berthnasol i hybu gofal, dysg a datblygiad plant ag anghenion ychwanegol mewn lleoliad addysg gynnar

23. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer hybu gofal, dysg a datblygiad plant ag anghenion ychwanegol mewn lleoliad addysg gynnar
24. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth hybu gofal, dysg a datblygiad plant ag anghenion ychwanegol mewn lleoliad addysg gynnar
25. sut y gall eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod effeithio wrth hybu gofal, dysg a datblygiad plant ag anghenion ychwanegol mewn lleoliad addysg gynnar, a sut i fynd i'r afael â hyn
26. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth hybu gofal, dysg a datblygiad plant ag anghenion ychwanegol mewn lleoliad addysg gynnar

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

HSCCLD345

Hybu gofal, dysg a datblygiad plant ag anghenion ychwanegol mewn lleoliadau addysg gynnar

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD345 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Gofal, Dysg, Datblygiad, Plant ag Anghenion Ychwanegol, Addysg Gynnar, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |